OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1646 (Cy.159)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Mehefin 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *24 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *17 Gorffennaf 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol ar fwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid neu y porthir anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ag ef(**2**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2008.

(3) Yn y rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.** Diwygir y Prif Reoliadau yn unol â'r paragraffau canlynol—

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971. Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan adrannau 58 a 59 o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S 2008/781 (Cy.80).

(a) yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y diffiniad o "awdurdod bwyd anifeiliaid" yn lle "adran 67(1)" rhodder "adran 67(1A)";

(b) ym mharagraff (1) o reoliad 4 (gorfodi) hepgorer y geiriau "neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth,"; ac

(c) yn rheoliad 5 (cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990) ym mharagraff (c) (sy'n ymwneud ag adran 32 — pwerau mynediad) hepgorer y geiriau "neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth".

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Mehefin 2008

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau yn rhoi ar waith, o ran Cymru, Benderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L244, 7.9.2006, t.27) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2006/601/EC sy'n ymwneud â mesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L52, 27.2.2008, t.25).

Mae'r Rheoliadau hyn—

(1) yn diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau i gywiro gwall teipograffyddol; a

(2) yn diwygio rheoliadau 4 a 5 o'r prif Reoliadau i ddileu geiriau diangen.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.